SKANT6

Gwella a chynnal ewinedd drwy ddefnyddio cynnyrch ewin wedi ei drin

Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol *a *SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.** * *Mae'r safon yma ar gyfer rhywun proffesiynol ym maes Ewinedd sy'n darparu gwasanaethau ewin i wella, cynnal a thrwsio gwelliannau cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV. Mae'r gwasanaeth cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV yn cynnwys paratoi'r ewinedd, siapio'r ewinedd, gwaith ar y glasgroen ac ymestyn yr ewin naturiol drwy gerfio'r ewin gan ddefnyddio cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV gan ddodi blaenau i'r ewin gyda gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfyrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, polisïau a gweithdrefnau diweddaraf a chyfarwyddyd am arfer orau. Cynghorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

Y prif ddeilliannau yw:

1. Gwella'r ewinedd drwy ddodi cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV wedi ei gerfio
2. Gwella'r ewinedd drwy ddodi blaenau gyda gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV
3. Dodi gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV arf yr ewin naturiol
4. Cynnal a thrwsio gwelliannau i'r ewin drwy fewnlenwi ac aildafoli

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn
2. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau
3. trafod a sefydlu amcanion, pryderon a disgwyliadau'r unigolyn a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno er mwyn hysbysu'r cynllun gwasanaeth, i gynnwys:

3.1 gorffeniad i'r ewin wedi ei drin ag UV

3.2 ffordd o fyw

3.3 dewisiadau triniaeth amgen

4. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, eu bod wedi deall y gwasanaeth arfaethedig, i gynnwys:

4.1 gwrth-weithredoedd

4.2 **adweithiau niweidiol**

4.3 teimlad corfforol ar haen yr ewin a'r croen o amgylch

5. sicrhau a chofnodi cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer y gwasanaeth

6. paratoi man triniaeth yr unigolyn yn unol â'r **protocol gwasanaeth***,* y gynnwys:

6.1 cael gwared o unrhyw gynnyrch sy'n bodoli o'r ewin yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

7. gwneud dadansoddiad o'r ewin a'r croen, i gynnwys:

7.1 **cyflwr yr ewin**

7.2 cyflwr y croen

7.3 **hyd a siap yr ewin**

8. trafod a chytuno ar y gwasanaeth yn unol â'r protocol
9. cadarnhau gyda'r unigolyn yr hyd a'r siap i'r ewin y mae'n ei ddymuno

10. clipio a siapio'r ewinedd er mwyn sicrhau min rhydd yn unol â'r protocol gwasanaeth

11. paratoi'r glasgroen yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
12. defnyddio offer i gael gwared o lasgroen o blât gweledig yr ewin heb niweidio'r croen o amgylch

13. paratoi plat yr ewin ar gyfer gorffeniad yr ewin wedi ei drin ag UV yn unol â'r protocol gwasanaeth

14. paratoi'r **cyfarpar** UV yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gofynion deddfwriaethol

Dodi gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

15. dewis y cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV yn unol â'r protocol gwasanaeth

16. dodi'r gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV i blât yr ewin gan adael ymyl rydd o'r croen o amgylch yn unol â'r protocol gwasanaeth

Cerfio gan ddefnyddio cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

17. addasu a ffitio'r ffurf cerfio er mwyn sicrhau'r gosodiad a'r siap iawn ar gyfer y cynnyrch

18. dewis y cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV yn unol â'r protocol gwasanaeth

19. dodi'r gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV i blât yr ewin gan adael ymyl rydd o'r croen o amgylch yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, i gynnwys
20. dodi'r gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV i blât yr ewin gan adael ymyl rydd o'r croen o amgylch yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, i gynnwys:

20.1 creu strwythur ewin artiffisial yn unol â'r protocol gwasanaeth cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

Dodi blaenau a gorchuddion cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

21. dewis ac addasu blaenau i'r ewin i gydweddu ag ewinedd naturiol yr unigolyn cysylltu blaen yr ewin gyda'r ewin naturiol gan ddefnyddio glud i'r ewin yn unol â'r protocol gwasanaeth, i gynnwys:

21.1 clipio a siapio ymyl rhydd y blaenau

21.2 ymdoddi'r blaenau i mewn i'r ewin naturiol os oes angen fel na fydd modd sylwi arnynt gan sicrhau na fydd difrod i'r ewin naturiol

22.dewis y cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV yn unol â'r protocol gwasanaeth

23. dewis y cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV yn unol â'r protocol gwasanaeth

24. dodi'r gorchudd cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV a gadael ymyl yn rhydd o'r croen o amgylch, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Trin

25. trin y cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV gan ddefnyddio'r cyfarpar UV hyd y diwedd, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Cynnal a chadw a thrwsio

26. nodi unrhyw waith cynnal a chadw a/neu ddifrod annisgwyl i

welliannau'r ewin i gynnwys:

26.1 nodi achos y difrod annisgwyl

26.2 trwsio'r gwelliant i'r ewin sydd wedi ei ddifrodi neu ei ddodi yn ôl

27. defnyddio **technegau cynnal yr ewin** er mwyn adfer gwelliant yr ewin i'w gyflwr gwreiddiol

Technegau gorffen

28. cael gwared o'r haen ataliad o'r cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

29. defnyddio technegau ffeilio er mwyn creu'r cydbwysedd, siap a'r hyd sy'n ofynnol

30. dodi côt uwch i amddiffyn gorffeniad yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

31. monitro iechyd, lles ac adwaith croen yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth
32. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
33. cwblhau'r gwasanaeth yn unol â'r protocol gwasanaeth, gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
34. cwblhau cofnodion gwasanaeth yr unigolyn a'u cadw'n unol â deddfwriaeth data
35. defnyddio ymarfer adfyfyriol er mwyn gwerthuso'r gwasanaeth a gweithredu'n briodol
36. rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn cyn ac ar ôl y gwasanaeth

37. cofnodi canlyniad a gwerthusiad o'r gwasanaeth a’r gwerthusiad ohono

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau pan yn darparu'r gwasanaethau a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu

2. pam bod rhaid i chi gydymffurfio ag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu'r awdurdod lleol i chi eich hun a'ch adeilad

3. pwysigwrydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, polisïau gwybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am yr arfer orau diweddaraf

4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma

5. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r gwasanaeth ewinedd, i gynnwys:

5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis chyfeirio meddygol

6. pwysigrwydd adnabod nodweddion afreolaidd ac anafiadau ar y croen, a chyfeirio at rywun proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd

7. diben, y defnydd o a chyfyngiadau gwasanaethau cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV mewn perthynas â:

7.1 hanes meddygol o'r gorffennol a chyfredol

7.2 cyflwr yr ewin a'r croen

7.3 ffactorau perthnasol sy'n ymwneud â'r ffordd o fyw

7.4 meddyginiaeth a chyflyrau meddygol

7.5 disgwyliadau'r unigolyn

8. y gwahanol fathau o gyflyrau'r croen a'r ewin y gellir eu trin

9. sut i wneud dadansoddiad o'r ewin a'r croen

10. pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o'r ewin a'r croen er mwyn penderfynu ar y cynllun gwasanaeth

11. pwysigrwydd cadw at y protocol gwasanaeth

12. y cyfarpar a ddefnyddir wrth ddodi cynnyrch ewin wedi ei drin, i gynnwys:

12.1 y gofynion ar gyfer cynnal a chadw, defnyddio a diogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gofynion deddfwriaethol

13. y broses bolymereiddio

14. y sbectrwm electromagnetig a'r tonfeddi UV

15. sut i drin cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV mewn modd effeithiol, i gynnwys:

15.1 y rhesymau dros i gynnyrch ewin wedi ei drin ag UV gael ei drin rhy ychydig a/neu ei drin yn ormodol

16. pwysigrwydd defnyddio cyfarpar UV gyda'r donfedd, tywyniad a'r amseriad ar gyfer cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

17. y technegau llaw a ddefnyddir wrth wneud gwelliannau i'r ewin gan ddefnyddio cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV, i gynnwys:

17.1 sut i addasu gwasanaeth cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV er mwyn cwrdd ag anghenion yr unigolyn

18. y mathau o ffeiliau a chlustogau a'u heffeithiau

19. y mathau o flaenau'r ewin, a thechnegau o'u trin a'u cyfuno

20. manteision a chyfyngiadau blaenau sydd wedi eu cyfuno a heb eu cyfuno

21. y gwahaniaethau rhwng cyfryngau clymu alcalinaidd ac asidaidd

22. pryd a pham y caiff cyfryngau clymu eu defnyddio

23. sut i ddodi gwelliannau i'r ewin er mwyn sicrhau eu bod cyn gryfed ac yn parhau cyhyd â phosibl

24. y gwahanol fathau o ffurfiau cerfio sydd ar gael a sut i'w defnyddio nhw

25. y gwahanol fathau o orffeniadau ewin wedi eu trin ag UV, i gynnwys:

25.1 systemau cryfhau ewin wedi ei drin ag UV
25.2 systemau hybrid wedi eu trin ag UV

26. mathau o, manteision a chyfyngiadau cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV i gynnwys:

26.1 sut i gael cynnyrch gel lliw sy'n cydweddu gyda dosbarthiad naturiol croen yr unigolyn

27. y rhesymau dros adael ymyl rydd o amgylch y croen o gwmpas

28 cyfansoddiad cemegol y broses trin cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV, i gynnwys:

28.1 sut y gall yr amser trin amrywio

29. sut y gall gwelliannau i'r ewin gyda chynnyrch ewin wedi ei drin ag UV fod yn wahanol i gynnyrch gwella ewin eraill

30. y mathau o gynnyrch glendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

31. sut i baratoi, defnyddio a chynnal a chadw cynnyrch, offer a chyfarpar yn unol â'r protocol gwasanaeth

32. pam ei bod yn bwysig glanhau a sychu'r ewin naturiol cyn dodi system gwella ewin i gynnwys:

32.1 y rhesymau dros ddefnyddio cynnyrch cyn triniaeth er mwyn sychu plat yr ewin

33. pam y ceir gwared o'r haen ataliad yn dilyn dodi cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

34. y rhesymau dros ddodi **cynnyrch wedi triniaeth** yn dilyn dodi cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

35. technegau trwsio ewinedd naturiol

36. technegau trwsio gwelliannau i'r ewinedd

37. y mathau o ddulliau cynnal a ddefnyddir i adfer gwelliannau i'r ewin, sut a phryd i'w cyflawni

38. y rhesymau pam bod gwelliant i'r ewin yn dioddef colled neu ddifrod annisgwyl a chynamserol yn dilyn gwasanaeth gwella'r ewin

39. yr adweithiau niweidiol a gysylltir gyda gwasanaeth cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV a sut i ymateb

40. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth:.

40.1 pwysigrwydd echdynnu ac awyriant digonol pan yn defnyddio cynnyrch gwella ewinedd

41. y rhesymau pam bod angen cynllun wrth gefn ar gyfer cael safe gwared o'r gwelliant i'r ewin mewn modd diogel, i gynnwys:

41.1 y ffyrdd y gall cynllun wrth gefn fod yn effeithiol ac yn fodd o gadw iechyd a diogelwch yr unigolyn

42. pwysigrwydd defnyddio cynnyrch sydd wedi cael eu cymeradwyo'n gosmetig

43. pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn atal anghydnawsedd cynnyrch a risgiau i iechyd

44. y mathau a'r risgiau cysylltiedig o gynnyrch i'r ewinedd sy'n gysylltiedig â natur wenwynig

45. pam ei bod hi'n bwysig trafod a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon, disgwyliadau, y canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun gwasanaeth

46. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r ewinedd i blant dan oed ac oedolion bregus

47. y strwythurau talu a dewisiadau ar gyfer triniaeth

48. gofynion deddfwriaethol a digolleiad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi'i lofnodi ar gyfer y gwasanaeth

49. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth

50. y rhesymau dros gymryd delweddau gweledol gyda chydsyniad o fan triniaeth yr unigolyn, a'u cadw yn unol â gofynion y gwasanaeth, deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol

51. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion o wasanaeth yr unigolyn

52. canlyniadau disgwyliedig gwasanaethau cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

53. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a sut y mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol

54. pwysigrwydd cofnodi canlyniad y gwasanaeth a gwerthusiad ohono

55. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth

Cwmpas/Ystod

Gorffeniad cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

1. tywyll
2. pinc a gwyn
3. lliw
4. tywyll sy'n cydweddu â'r croen

****Adwaith niweidiol****

1. adwaith alergaidd
2. afliwiad o'r cynnyrch
3. afliwiad o blât yr ewin
4. afliwiad o haen yr ewin
5. plât yr ewin yn teneuo
6. toriadau a chrafiadau
7. cleisio
8. goroleuad
9. adwaith ecsothermig
10. codi'r cynnyrch
11. colli'r gwelliant yn rhy gynnar
12. haint
13. trin yn ormodol

****Protocol gwasanaeth****

1. amgylchedd waith
2. iechyd a diogelwch
3. atal a rheoli haint
4. cynllun gwasnaeth

5. cydsyniad gwybodus

6. rheoli data

7. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
8. archwilio ac atebolrwydd
9. cyfarwyddiadau a chyngor
10. cynaliadwyedd
11. rheoli gwastraff
12. ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth
13. ymarfer adfyfyriol

*

*

*
*Cyflwr yr ewin**
**

1. cnoi ewinedd

2. afliwiad

3. wedi ystumio
4. hollt uwchben yr hyponychium
5. llinellau beau
6. llinellau hydredol a llorweddol gwrymiog
7. sych
8. onychorhecsis
9. onycholysis

Hyd a siap yr ewin*

1. hir
2. hyd canolig
3. byr
4. crwn
5. hirgrwn
6. sgwar
7. sgwofal
8. arch
9. almon
10. stileto

****Cyfarpar****

1. UV CFL
2. UV LED

** **

****Technegau cynnal yr ewin****

1. mewnlenwi
2. aildafoli
3. ôl-lenwad
4. ailosod y gorchudd
5. trwsio'r gorchudd

** **

*
*
Cyfarwyddiadau*

1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a'r ymarferydd
2. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y driniaeth
3. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
4. gwasanaethau yn y dyfodol

Anatomeg a ffisioleg

1. strwythur a swyddogaeth systemau'r corff a'u cyd- ddibyniaeth ar ei gilydd o fewn y dwylo a'r traed
2. y gwrtharwyddion a'r patholegau sy'n perthyn i'r uned ewinedd, tŵf yr ewinedd a'r croen
3. strwythur a swyddogaethau'r ewinedd a thŵf yr ewinedd

*
*Cynnyrch wedi'r driniaeth**

1. hufennau
2. olewon

Geirfa

Cynnyrch wedi'r driniaeth

Mae gwrtharwydd llwyr yn gyflwr sy'n rhwystro'r gwasanaeth rhag cael ei gyflawni ac a all fod angen cael ei gyfeirio.

Adwaith niweidiol

Adwaith niweidiol yw adwaith 'annisgwyl' neu ganlyniad yn dilyn a gwasanaeth, e.e. llewygu

Gwrth weithred

Gwrth weithred yw adwaith neu ganlyniad 'disgwyliedig' yn dilyn, e.e. erythema

Ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth

Mae ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau gyfredol, ddilys a pherthnasol sydd ar gael.

Cymorth Cyntaf

Gall cymorth cyntaf gyfeirio at gymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith neu ei gyffelyb ac ymwybyddiaeth o gymorth cyntaf iechyd meddyliol.

Protocol

Protocol yw gweithdrefn safonol er mwyn sicrhau arfer orau a chydymffurfiad pan yn darparu gwasanaethau h.y. dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Gwrtharwydd cymharol

Gwrtharwydd cymharol yw cyflwr sy'n gofyn am asesiad o addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth a/neu os oes angen addasiadau.

Gwenwyndra

Penderfynir gwenwyndra gan adwaith rhywun i wahanol ddognau o gemegolyn. Gall gwenwyndra neu adweithiau niweidiol ddigwydd o ganlyniad i anghynawsedd gyda chymysgedd anghywir o gemegolion.

Cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV

Mae cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV yn ffurfiau o gel caled a medal sy'n gofyn am driniaeth gan ddefnyddio cyfarpar UV wedi ei galibro.

Cyfarpar UV

Mae yna ddau fath o gyfarpar allyrru UV. Cant eu hadnabod fel Lamp Fflworoleuol Gywasgedig (CFL) lamp UV neu lamp UV Ddeuod Allyrru (LED) UV.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKAHDBRBNST1, SKAHDBRBNS1, SKABN1, SKABN2, SKABN3,

SKANT1, SKANT2, SKANT3, SKANT4, SKANT5, SKANT7, SKANT9

SKANT6

Gwella a chynnal ewinedd drwy ddefnyddio cynnyrch ewin wedi ei drin

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKANS9
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd ewinedd
Cyfres/Set	Gwasanaethau Ewinedd
Geiriau Allweddol	gwelliannau i’r ewin, ewin artiffisial, cynnyrch ewin wedi ei drin ag UV; gel ysgafn wedi ei drin, gel meddal; LED, UV, glud i’r ewin, blaenau